



Cyngor  
Osteopathig  
Cyffredinol

## **Canllawiau i ymgeiswyr a myfyrwyr ag anabledd neu gyflyrau iechyd**

## Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

1. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOSC) yn rheoleiddio ymarfer osteopathi yn y Deyrnas Unedig. Fel corff rheoleiddio, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bob ymgeisydd a myfyriwr osteopathi.
2. Rydym yn un o naw rheoleiddiwr iechyd proffesiynol a sefydlwyd gan y gyfraith i sicrhau diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd<sup>1</sup>.
3. Yn ôl y gyfraith, rhaid i osteopathiaid fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol er mwyn ymarfer yn y DU.
4. Fel gyda phob rheoleiddiwr gofal iechyd, ein prif ddiben yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd; hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi; a hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol aelodau'r proffesiynau hynny<sup>2</sup>. Rydym yn gwneud hyn drwy:
  - Gadw'r [Gofrestr](#) o bawb sydd â hawl i ymarfer osteopathi yn y DU.
  - Gosod, monitro a datblygu [safonau](#) hyfforddiant, ymarfer ac ymddygiad osteopathig.
  - Sicrhau ansawdd addysg osteopathig a sicrhau bod osteopathiaid yn ymgymryd â [datblygiad proffesiynol parhaus](#)
  - Helpu cleifion ac eraill sydd â [phryderon neu gwynion](#) am osteopath. Mae gennym y pŵer i dynnu unrhyw osteopath nad yw'n gymwys i ymarfer o'r Gofrestr.
5. Mae cleifion yn disgwyl y bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gymwys ac yn ymarfer yn ddiogel, yn trin cleifion yn iawn ac yn ymddwyn yn foesebol. Cyfrifoldeb y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw sicrhau bod hyn yn digwydd a chymryd camau os na fydd ymarfer osteopath yn cyrraedd ein safonau.

---

<sup>1</sup> Gellir dod o hyd i wybodaeth am bob un o'r naw rheoleiddiwr iechyd proffesiynol yn: [osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/publications/who-regulates-health-and-social-care-professionals-leaflet](http://osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/publications/who-regulates-health-and-social-care-professionals-leaflet)

<sup>2</sup> A3(1) o *Ddeddf Osteopathiaid 1993*, fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015*

## Cynnwys

<b>Ynglŷn â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol</b>	2
<b>Adran 1: Cyflwyniad</b>	4
Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?	
Beth sy'n cael ei gynnwys yn y canllawiau hyn?	
Iaith	
Beth yw osteopathi?	
Beth mae osteopathiaid yn ei wneud?	
Sut alla i fod yn osteopath?	
Os oes gen i anabledd, alla i fod yn osteopath?	
Pa hawliau mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu rhoi i fyfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd?	
Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol i addysg a hyfforddiant myfyrwyr osteopathi?	
A oes myfyrwyr osteopathi sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd?	
Gyda phwy ddylwn i siarad os ydw i'n meddwl yr hoffwn i fod yn osteopath?	
<b>Adran 2: Gwneud cais i astudio osteopathi</b>	11
I ba sefydliad addysgol osteopathig ddylwn i wneud cais?	
A ddylwn i ddatgelu fy anabledd ar y ffurflen gais?	
Sut fydd fy nghais yn cael ei ystyried?	
Beth mae 'gwneud addasiadau rhesymol' yn ei olygu?	
A oes unrhyw anableddau a allai fy atal rhag hyfforddi i fod yn osteopath?	
Sut alla i gael y cymorth sydd ei angen arna i?	
Beth os ydw i'n meddwl fy mod i wedi cael fy nhrin yn annheg yn ystod y broses ymgeisio?	
<b>Adran 3: Yn ystod y rhaglen astudio</b>	18
Os caf i le, a fydda i'n cael fy nghefnogi yn ystod fy rhaglen radd osteopathi?	
Pa addasiadau y gellir eu gwneud i'm cefnogi i gwblhau'r rhaglen?	
A fydd angen i mi newid y ffordd rwy'n rheoli fy iechyd neu anabledd?	
Sut mae materion iechyd ac anabledd yn ymwneud ag addasrwydd myfyriwr i ymarfer?	
Beth yw 'addasrwydd i astudio'?	
Beth sy'n digwydd os bydd anabledd neu gyflwr iechyd yn datblygu neu'n cael ei ddiagnosisio ar ôl i mi ddechrau'r cwrs?	
Os bydda i'n pasio fy rhaglen radd, a fydda i'n cael fy nghofrestru fel osteopath gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol?	
Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gymhwyso?	
A fydda i'n gallu ennill bywoliaeth fel osteopath?	
<b>Adran 4: Adnoddau a dolenni</b>	26

## Adran 1: Cyflwyniad

### Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

1. Mae llawer o bobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor yn mwynhau gyrfaoedd gwerth chweil mewn gofal iechyd gyda neu heb addasiadau i gefnogi eu hymarfer. Os ydych chi'n ystyried gyrfa mewn osteopathi a'ch bod yn anabl neu â chyflwr iechyd hirdymor, dylai'r llyfryn canllaw hwn eich helpu i benderfynu a yw addysg a hyfforddiant osteopathig yn iawn i chi. Ar gyfer myfyrwyr osteopathi sydd â chyflwr iechyd neu anabledd, neu sy'n eu datblygu, bwriad y canllawiau hyn yw tynnu sylw at faterion i fod yn ymwybodol ohonynt a chefnogi mesurau sydd ar gael i chi drwy gydol eich astudiaethau. Darperir canllawiau ar wahân ar gyfer sefydliadau addysgol osteopathig: [\*Students with a disability or health condition: Guidance for Osteopathic Educational Institutions\*](#)<sup>3</sup>.

### Beth sy'n cael ei gynnwys yn y canllawiau hyn?

2. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio natur y gwaith mae osteopathiaid yn ei wneud, yr addysg a'r hyfforddiant y bydd eu hangen arnoch i ddod yn osteopath, a'r cymorth y gallwch chi ei ddisgwyl fel myfyriwr osteopathi. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen y canllawiau hyn ar y cyd â'n canllawiau ar addasrwydd myfyrwyr i ymarfer ac ymddygiadau proffesiynol<sup>4</sup>.
3. Mae Adran 2 yn disgrifio'r broses o wneud cais i ddilyn cwrs osteopathig a'r camau y bydd sefydliadau addysgol osteopathig yn eu cymryd wrth ystyried eich cais.
4. Mae Adran 3 yn disgrifio'r cymorth y gallwch chi ei ddisgwyl yn ystod hyfforddiant a'r hyn sy'n digwydd ar ôl graddio.
5. Mae Adran 4 yn awgrymu ffynonellau eraill o wybodaeth berthnasol.

### Iaith

6. Rydym yn deall y gall y dewis o ran pa iaith mae pobl yn ei defnyddio am eu hanabledd neu eu hiechyd fod yn ddewis personol. Yn y canllawiau hyn, rydym yn cyfeirio at 'bobl anabl' a 'myfyrwyr anabl', sef termau sydd wedi'u llywio gan y model cymdeithasol o anabledd. Mae hyn yn cydnabod y ffaith y gall rhwystrau a achosir gan agweddau mewn cymdeithas anablu pobl, yn ogystal â ffactorau amgylcheddol a sefydliadol. Rydym hefyd yn defnyddio'r term 'pobl ag anableddau' neu 'fyfyrwyr ag anableddau' mewn rhai cyd-destunau. Disgrifir y diffiniad o anabledd fel y nodir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010* ym mharagraffau 26-30.
7. Drwy gydol y canllawiau hyn, rydym yn cyfeirio at 'anableddau' a 'chyflyrau iechyd'. Mae hyn yn cydnabod y ffaith nad yw pawb sy'n bodloni'r diffiniad yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn ystyried neu'n disgrifio eu hunain fel pobl "anabl", ac nad yw rhai cyflyrau iechyd yn cael eu hystyried yn anableddau o fewn diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb. Pan fyddwn yn cyfeirio at yr amddiffyniad cyfreithiol sydd gan bobl anabl yn ôl y gyfraith, rydym yn defnyddio'r geiriau 'anabl' neu 'anabledd'.

---

<sup>3</sup> Ar gael yn: [osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/fitness-to-practise/oeis-disability-or-health-impairment-guidance](https://osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/fitness-to-practise/oeis-disability-or-health-impairment-guidance)

<sup>4</sup> Ar gael yn: [osteopathy.org.uk/news-and-resources/publications/student-fitness-to-practise-guidance](https://osteopathy.org.uk/news-and-resources/publications/student-fitness-to-practise-guidance)

## **Beth yw osteopathi?**

8. Mae osteopathi yn ddull o ddiagnosis a thriniaeth, ac fe'i defnyddir wrth drin ystod eang o anhwylderau sy'n gysylltiedig â strwythur y corff, ac effaith hyn ar iechyd a lles unigolyn. Mae'n cydnabod ac yn gweithio gyda'r berthynas rhwng y corff, y meddwl a'r safbwyntiau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd person. Mae'r dull osteopathig o ymdrin ag iechyd a gwella yn seiliedig ar y cysyniad o bob bod dynol fel unigolyn lle mae strwythurau a systemau'n rhyng-gysylltiedig, ac yn meddu ar fecanweithiau hunanreoli a hunan-wella.

## **Beth mae osteopathiaid yn ei wneud?**

9. Mae osteopathiaid yn ystyried pob person fel unigolyn. Ar ymweliad cyntaf claf, bydd yr osteopath yn treulio amser yn cymryd hanes meddygol manwl, gan gynnwys gwybodaeth am ei ffordd o fyw a'i iechyd cyffredinol. Bydd yr osteopath yn cynnal archwiliad corfforol (a all olygu bod y claf yn dadwisgo i'w ddillad isaf). Gofynnir i gleifion gyflawni rhai symudiadau sylfaenol er mwyn i'r osteopath weld sut mae'n symud yn gyffredinol, yn ogystal â manau penodol sy'n peri problem. Gellir cynnal archwiliad o feinweoedd a chymalau penodol i helpu i lywio diagnosis, yn ogystal â phrofion niwrolegol ac orthopedig i weld pa mor dda mae'r cymalau a'r nerfau'n gweithio.
10. Mae osteopathiaid yn defnyddio eu dwylo i nodi annormaleddau yn strwythur a swyddogaeth y corff, ac i asesu manau o wendid, tynerwch, cyfyngiad neu straen. Drwy hyn, mae osteopathiaid yn gwneud diagnosis ac yn trafod y cynllun triniaeth mwyaf priodol â'r claf, gan amcangyfrif y nifer tebygol o sesiynau sydd eu hangen i drin ei gyflwr yn effeithiol.
11. Mae osteopathiaid yn defnyddio ystod eang o dechnegau llaw, gan gynnwys trin y corff, ymestyn a thylino i gynyddu symudedd cymalau ac i leddfu tensiwn a chyfyngiadau o fewn cyhyrau a meinweoedd eraill, i wella'r cyflenwad gwaed a nerfau, ac i annog mecanweithiau gwella'r corff ei hun. Efallai y byddant hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar ffordd o fyw, ystum y corff ac ymarfer corff i'ch helpu i wella, hybu iechyd ac atal symptomau rhag codi eto. Bydd dull yr osteopath yn dibynnu ar natur anghenion a dewisiadau'r claf unigol.
12. Mae cleifion osteopathiaid yn amrywiol iawn, gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn, gweithwyr llaw, gweithwyr swyddfa proffesiynol, menywod beichiog, plant a phobl o fyd chwaraeon. Mae cleifion yn ceisio triniaeth ar gyfer amrywiaeth eang o gyflyrau, gan gynnwys poen cefn, anaf straen ailadroddus, newidiadau i ystum y corff yn ystod bechiogrwydd, problemau gydag ystum y corff a achosir gan yrru neu straen gwaith, poen arthritis a mân anafiadau chwaraeon.
13. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn hunanatgyfeirio i osteopath ar gyfer triniaeth. Er nad yw atgyfeiriad gan feddyg teulu yn angenrheidiol, anogir cleifion i hysbysu eu meddyg teulu a'r osteopath fel bod eu cofnodion meddygol yn gyfredol ac yn gyflawn a bod y claf yn cael y gofal gorau posibl gan y ddau ymarferydd gofal iechyd. Mae osteopathiaid yn fedrus mewn technegau diagnostig ac wedi'u hyfforddi i nodi pryd mae angen atgyfeirio claf i feddyg teulu.

14. Mae mwy na 5,000 o osteopathiaid wedi'u cofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae'r proffesiwn yn denu niferoedd tebyg iawn o ddynion a menywod. Mae rhai osteopathiaid eisoes wedi cymhwyso mewn ymarfer iechyd arall, megis meddygaeth, nyrzio neu ffisiotherapi.
15. Mae'r rhan fwyaf o osteopathiaid yn hunangyflogedig ac yn gweithio yn y sector preifat. Mae rhai yn gweithio mewn amgylcheddau amlddisgyblaethol o fewn y GIG, neu mewn gofal iechyd galwedigaethol mewn cyrff cyhoeddus a chwmnïau preifat. Rhaid i bob osteopath yn y DU, ble bynnag y maent yn gweithio, fod wedi cofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol

### **Sut alla i fod yn osteopath?**

16. Er mwyn cael eich cofrestru i ymarfer fel osteopath, bydd angen i chi ennill cymhwyster cydnabyddedig. Mae hwnnw'n gymhwyster a gymeradwywyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac a ddyfernir gan sefydliad addysgol osteopathig.
17. Mae rhaglenni gradd osteopathig llawn amser a rhan-amser ar gael yn y DU<sup>5</sup>. Bydd y rhain yn cynnwys cyfuniad o astudiaethau academiaidd, hyfforddiant ymarferol osteopathig a phrofiad clinigol dan oruchwyliaeth. Mae'r dulliau asesu nodweddiadol o fewn addysg osteopathig yn cynnwys: arholiadau ysgrifenedig, traethodau, traethodau hir sy'n seiliedig ar ymchwil, asesu techneg osteopathig ymarferol, asesiadau ymarferol sy'n seiliedig ar achosion ac asesiadau clinigol gyda chleifion go iawn.
18. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn monitro'r safonau addysg a hyfforddiant a ddarperir gan gyrsiau sefydliadau addysgol osteopathig, drwy broses o adroddiadau blynyddol, ac rydym hefyd yn cynnal adolygiadau llawn yn rheolaidd, fel arfer bob tair i bum mlynedd. Mae'r rhain yn cael eu cynnal ar ein rhan gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Cynhelir adolygiadau o gyrsiau gan gyfeirio at ein safonau cyhoeddedig a [Subject Benchmark Statement for Osteopathy](#)<sup>6</sup> a [Guidance on Pre-Registration Osteopathic Education](#)<sup>7</sup> yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.
19. Mae ennill cymhwyster cydnabyddedig yn golygu eich bod yn gallu ymarfer, heb oruchwyliaeth, i'r safon a ddisgwylir yn ein [Osteopathic Practice Standards](#)<sup>8</sup>, a'ch bod wedi cyflawni'r canlyniadau a nodir yn ein *Guidance on Pre-Registration Osteopathic Education*.

---

<sup>5</sup> Mae manylion am sefydliadau addysg osteopathig ar gael yma: [osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/training-courses](http://osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/training-courses)

<sup>6</sup> Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, 2007, *Subject Benchmark Statement for Osteopathy*, Caerloyw, QAA, ar gael yn: [www.qaa.ac.uk/en/Publications/Documents/SBS-Osteopathy-15.pdf](http://www.qaa.ac.uk/en/Publications/Documents/SBS-Osteopathy-15.pdf)

<sup>7</sup> [osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/guidance-osteopathic-pre-registration-education](http://osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/guidance-osteopathic-pre-registration-education)

<sup>8</sup> [standards.osteopathy.org.uk](http://standards.osteopathy.org.uk)

20. Bydd y cymhwyster cydnabyddedig yn rhoi'r hawl i chi wneud cais i gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Fel rhan o'r cais i gofrestru, bydd disgwyl i chi hefyd ddarparu tystiolaeth o iechyd da a chymeriad da, ac i fod wedi bodloni ein hamodau ynghylch y ffi gofrestru a chadarnhau yswiriant indemniad proffesiynol. Rhaid i chi fod wedi cofrestru cyn i chi ddechrau ymarfer.
21. Mae ein gofyniad iechyd da yn golygu:

*... bod rhaid i chi allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Nid yw'n golygu absenoldeb unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd. Mae llawer o bobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor yn gallu ymarfer gyda neu heb addasiadau i gefnogi eu hymarfer<sup>9</sup>.*

### **Os oes gen i anabledd, alla i fod yn osteopath?**

22. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydym yn credu'n gryf bod y proffesiwn a'i gleifion yn elwa ar gael ymarferwyr anabl ar y Gofrestr. Mae myfyrwyr ac ymarferwyr anabl yn gwneud cyfraniad unigryw at osteopathi, gan ddod â phrofiad uniongyrchol o amrywiaeth o gyflyrau a namau iechyd a'r gallu i ddarparu mewnwleidiad gwerthfawr. Mae rhai cleifion yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi synwyrusrwydd a sensitifrwydd penodol, ac yn uniaethu'n agos ag ymarferwyr anabl. Mae osteopathi yn croesawu pobl ag ystod o gefndiroedd a galluoedd ond, er mwyn bod yn osteopath, rhaid i berson allu bodloni gofynion y *Safonau Ymarfer Osteopathig*. Mae hyn yn mynnu bod eich iechyd corfforol a meddyliol yn ddigonol i chi allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Nid yw'n golygu absenoldeb unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd. Mae llawer o bobl ag anabledau a chyflyrau iechyd yn gallu ymarfer yn ddiogel, yn effeithiol a heb oruchwyliaeth, gyda neu heb addasiadau i'w cefnogi.
23. Os byddwn yn cadarnhau bod ymgeisydd yn bodloni ein holl safonau ar gyfer cofrestru fel osteopath a'n bod yn ei roi ar ein Cofrestr, bydd ganddo hawl gyfreithiol i ymarfer heb gyfyngiad. Mae hyn yn golygu, pan fydd sefydliad addysgol osteopathig yn ystyried addasrwydd ymgeisydd i ymgymryd â rhaglen astudio, bod rhaid iddo fod yn hyderus bod gan yr unigolyn y gallu a'r galluedd i fodloni'r holl ofynion ymarfer proffesiynol ar ôl graddio. Ar ôl cofrestru, mae gan osteopathiaid rwymedigaeth broffesiynol barhaus i benderfynu drostynt eu hunain a ydynt yn parhau i fod yn gymwys i ymarfer. Mae hunan-fonitro yn rhan bwysig o fod yn weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig.
24. Fel corff rheoleiddio, nid ydym yn ymdrin â materion cyflogaeth. Nid yw bod ar ein Cofrestr yn gwarantu y byddwch yn dod o hyd i gyflogaeth fel osteopath neu, os byddwch yn dewis hunangyflogaeth, y byddwch yn denu digon o gleifion i wneud bywoliaeth.

### **Pa hawliau mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu rhoi i fyfyrwyr ag anabledau a chyflyrau iechyd?**

---

<sup>9</sup> *General Osteopathic Council Guidance about Professional Behaviours and Fitness to Practise for Osteopathic Students*, ar gael yn: [osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/fitness-to-practise/student-fitness-to-practise-guidance-about-professional](http://osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/fitness-to-practise/student-fitness-to-practise-guidance-about-professional)

25. Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* yn amddiffyn myfyrwyr rhag gwahaniaethu neu aflonyddu ar sail 'nodwedd warchoddedig'<sup>10</sup>, a hefyd rhag erledigaeth. Mae anabledd yn nodwedd warchoddedig.
26. Mae gwahaniaethu anghyfreithlon yn cynnwys:
- gwahaniaethu uniongyrchol
  - gwahaniaethu anuniongyrchol
  - gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd
  - methu â gwneud addasiadau rhesymol i bobl anabl.
27. Ystyrir bod unigolyn yn anabl at ddibenion y Ddeddf os oes ganddo *nam corfforol neu feddyliol* sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd<sup>11</sup>. Mae 'hirdymor' yn golygu bod y nam wedi para neu'n debygol o bara 12 mis neu fwy. Mae nam 'sylweddol' yn cael ei ddiffinio fel nam sy'n fwy na nam bach neu ddibwys.
28. Nid oes angen i unigolyn gael diagnosis meddygol o'i nam - y ffactor pwysig yw effaith y nam. Gall ffactorau eraill fod yn berthnasol wrth benderfynu a yw person yn anabl o dan delerau'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yng nghanllawiau'r Llywodraeth.<sup>12</sup>
29. Yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb, gall 'nam' gynnwys, er enghraifft, cyflyrau meddygol hirdymor megis asthma a diabetes, lle mae'r rhain yn cael effaith sylweddol, a chyflyrau amrywiol neu gynyddol megis arthritis gwynegol. Mae nam meddyliol yn cynnwys cyflyrau iechyd meddwl (megis anhwylder deubegynol neu iselder), anawsterau dysgu (gan gynnwys cyflyrau megis dyslecsia) ac anableddau dysgu (megis awtistiaeth). Mae rhai pobl, gan gynnwys y rhai â chanser, sglerosis ymledol a HIV/AIDS, yn cael eu hamddiffyn yn awtomatig fel pobl anabl gan y Ddeddf. Bydd pobl sydd ag anffurfiad difrifol yn cael eu hamddiffyn fel pobl anabl heb orfod dangos ei fod yn cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau o ddydd i ddydd. Mae cyflyrau cynyddol a'r rhai sydd ag effeithiau amrywiol neu fynych, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl megis iselder, hefyd wedi'u cynnwys ar yr amod eu bod yn bodloni'r prawf eu bod yn cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn amddiffyn pobl sydd wedi bodloni'r diffiniad yn y gorffennol. Mae rhai eithriadau a enwir, ac mae hyn yn cynnwys dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol.

---

<sup>10</sup> Dyma'r nodweddion gwarchoddedig eraill sy'n berthnasol: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred); rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol.

<sup>11</sup> Dyma'r diffiniad a ddefnyddir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010* sydd ar gael yn: [www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga\\_20100015\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_20100015_en.pdf), neu mewn fformat hawdd ei ddeall: [www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/85012/easy-read.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/85012/easy-read.pdf)

<sup>12</sup> Gweler: Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl, Mai 2011, *Equality Act 2010 Guidance: Guidance on matters to be taken into account in determining questions relating to the definition of disability*, ar gael yn: [odi.dwp.gov.uk/docs/law/ea/ea-guide-2.pdf](http://odi.dwp.gov.uk/docs/law/ea/ea-guide-2.pdf)



30. Mae rhagor o fanylion am y gwahanol fathau o wahaniaethu i'w gweld yn [\*Students with a disability of health condition: Guidance for osteopathic educational institutions\*](#)<sup>13</sup>.

### **Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol i addysg a hyfforddiant myfyrwyr osteopathi?**

31. Mae sefydliadau addysgol osteopathig yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb sy'n berthnasol i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch<sup>14</sup>. Maent hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus<sup>15</sup>. Mae hon yn ddyletswydd gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau, nid yn unig i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ond hefyd i hyrwyddo cyfle cyfartal yn weithredol a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig benodol a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd.
32. Mae'r Ddeddf yn gwahardd sefydliadau addysgol osteopathig rhag gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu erlid ymgeiswyr neu fyfyrwyr.
33. Gall ymgeisydd neu fyfyrwr sy'n credu ei fod wedi dioddef gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth gan sefydliad addysg wneud hawliad o dan y Ddeddf.
34. Gall sefydliadau addysgol benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, felly bydd sefydliadau'n defnyddio dulliau gwahanol i gyflawni'r un dibenion, yn dibynnu ar eu maint a natur y sefydliad.

### **A oes unrhyw fyfyrwyr osteopathig sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd?**

35. Oes. Mae llawer o fyfyrwyr anabl a myfyrwyr â chyflyrau iechyd sydd wedi cwblhau eu cwrs yn llwyddiannus ac wedi mynd ymlaen i ymarfer osteopathi. Mae myfyrwyr sy'n dilyn cwrs osteopathig, neu sydd wedi dilyn cwrs osteopathig, yn cynnwys rhai ag anawsterau dysgu (megis dyslecsia), namau synhwyraidd (yn weledol ac yn glywedol), anableddau corfforol (megis nam ar symudedd), cyflyrau iechyd (megis canser), salwch hirdymor (gan gynnwys diabetes, epilepsi) a chyflyrau iechyd meddwl (gan gynnwys iselder, anhwylderau gorbryder cyffredinol ac anhwylder panig).

---

<sup>13</sup> Ar gael yn: [www.osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/fitness-to-practise/oeis-disability-or-health-impairment-guidance](http://www.osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/fitness-to-practise/oeis-disability-or-health-impairment-guidance)

<sup>14</sup> Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gymwys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac mae cyfraith wrth-wahaniaethu ar wahân yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

<sup>15</sup> Gweler gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: [www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/public-sector-providers/public-sector-equality-duty](http://www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/public-sector-providers/public-sector-equality-duty)

## **Gyda phwy ddylwn i siarad os ydw i'n meddwl yr hoffwn i fod yn osteopath?**

36. I ddechrau, dylech chi siarad â chymaint o bobl â phosibl – gan gynnwys, os yn bosibl, osteopathiaid yn eich ardal leol – ynghylch a fyddai osteopathi yn ddewis da i chi o ran gyrfa. Bydd hyn yn eich helpu i gael amrywiaeth o safbwyntiau am fanteision ac anfanteision posibl osteopathi fel opsiwn gyrfa i chi.
37. Mae'n debyg y bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen ein [Osteopathic Practice Standards](#)<sup>16</sup> a'n [Guidance on Pre-registration Osteopathic Education](#)<sup>17</sup> fel y gallwch chi ddechrau asesu drosoch chi'ch hun a allai osteopathi fod yr yrfa i chi.
38. Yn ogystal â siarad â phobl rydych chi'n eu hadnabod, mae'n hanfodol eich bod yn siarad â phobl mewn sefydliadau addysgol osteopathig. Mae ganddynt brofiad o gefnogi myfyrwyr sydd ag ystod eang o anableddau a chyflyrau iechyd. Dylech gysylltu â darparwyr hyfforddiant cyn i chi wneud cais cadarn i ddarganfod sut beth yw'r rhaglen, sut brofiad yw gweithio fel osteopath, ac i ddysgu mwy am sut mae myfyrwyr eraill wedi ymdopi. Bydd sefydliadau addysgol osteopathig yn gallu rhoi enghreifftiau i chi o'r mathau o gymorth mae myfyrwyr eraill ag anableddau neu gyflyrau iechyd wedi'u cael, a sut y maent wedi addasu i heriau bywyd fel myfyriwr.
39. Gallwch fod yn dawel eich meddwl na fydd cyswllt cychwynnol o'r math hwn yn dylanwadu ar eich cais, os byddwch yn penderfynu gwneud cais. Ni fydd y sefydliadau addysgol osteopathig yn defnyddio'r cyswllt cychwynnol hwn i'ch asesu chi fel darpar ymgeisydd, ond byddant yn defnyddio'r cyfle i'ch helpu chi i feddwl am oblygiadau ymgymryd ag addysg a hyfforddiant osteopathig a chychwyn ar yrfa mewn osteopathi.
40. Pan fyddwch yn cysylltu â sefydliad addysgol osteopathig, gofynnwch am eu polisi cydraddoldeb, y cymorth y maent yn ei ddarparu i fyfyrwyr anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd, ac a allwch chi siarad â'u gwasanaeth anabledd neu eu gwasanaeth cymorth dysgu. Bydd hyn yn rhoi syniad da i chi o'r mathau o gymorth a allai fod ar gael i chi.
41. Mae nifer o sefydliadau addysgol osteopathig yn cynnig diwrnodau agored i ddarpar fyfyrwyr. Mae'r rhain yn gyfle gwych i gael cipolwg ar beth yw osteopathi a beth yw addysg a hyfforddiant osteopathig. Yn aml, bydd cyfle i chi siarad â myfyrwyr ar y cwrs ac arsylwi neu gymryd rhan mewn darlithoedd a sesiynau ymarferol. Dylai hyn eich helpu i ddeall gofynion corfforol a seicolegol astudio osteopathi yn well. Bydd hefyd yn eich helpu i asesu a yw'r lefel o gymorth a fydd ar gael yn debygol o fod yn ddigonol i chi.

---

<sup>16</sup> Ar gael yn: [standards.osteopathy.org.uk](http://standards.osteopathy.org.uk)

<sup>17</sup> Ar gael yn: [osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/guidance-osteopathic-pre-registration-education](http://osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/guidance-osteopathic-pre-registration-education)

## **Adran 2: Gwneud cais i astudio osteopathi**

### **I ba sefydliad addysgol osteopathig ddylwn i wneud cais?**

42. Nid yw'n bosibl i ni roi cyngor i chi ar ba sefydliad addysgol osteopathig allai ddiwallu eich anghenion orau. Mae'r holl gyrsiau rydym wedi'u cymeradwyo wedi bodloni ein safonau ac wedi cael eu cydnabod fel rhai sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster cydnabyddedig. Wrth ddod i'ch penderfyniad, efallai y byddwch am nodi pa anghenion cymorth sy'n debygol o fod gyda chi, ac ystyried y ffordd orau o ddiwallu'r rhain pan fyddwch yn fyfyrwr. Gallai hyn gynnwys ffactorau megis: pa mor agos yw'r sefydliad addysgol osteopathig at eich teulu, eich ffrindiau a'ch gwasanaethau gofal iechyd, fel eich bod yn gallu parhau i gael cymorth ganddynt; ei faint a'i leoliad; natur y cwrs; a all y sefydliad gynnig neu eich helpu i ddod o hyd i lety addas i fyfyrwyr; a'r gwasanaethau cymorth i bobl anabl a fyddai ar gael i chi.

### **A ddylwn i ddatgelu fy anabledd ar y ffurflen gais?**

43. Mae o fudd i chi nodi unrhyw ofynion o ran addasiadau neu gymorth sy'n ymwneud â'ch anabledd neu eich cyflwr iechyd cyn gynted â phosibl yn y broses ymgeisio.<sup>18</sup> Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi wneud hyn. Rydym yn eich cyngori i fod yn agored am y wybodaeth hon oherwydd ei bod yn rhoi'r cyfle gorau i sefydliad addysgol osteopathig ddiwallu eich anghenion a threfnu cymorth cyn i'r cwrs ddechrau. Os byddwch yn rhoi'r wybodaeth hon i sefydliadau addysgol, gallwch fod yn dawel eich meddwl ei bod yn anghyfreithlon iddynt wahaniaethu yn eich erbyn oherwydd bod gennych chi anabledd neu gyflwr iechyd.
44. Os byddwch yn gwneud cais i sefydliad addysgol osteopathig drwy Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS), fe'ch gwahoddir i nodi a oes gennych chi anabledd, angen dysgu penodol neu gyflwr meddygol (o restr o opsiynau), neu i ddangos nad ydych chi am roi'r wybodaeth hon. Os ydych yn darparu gwybodaeth am anabledd neu gyflwr iechyd, bydd y sefydliad yn cadw'r wybodaeth honno'n gyfrinachol.
45. Bydd sefydliadau addysgol osteopathig yn ystyried eich anabledd, ac unrhyw addasiadau y gellir eu gwneud i'ch cefnogi i fodloni gofynion y cwrs, ar wahân i ystyried a oes gennych chi'r wybodaeth, y sgil a'r priodoleddau sydd eu hangen i gael mynediad i'r cwrs.
46. Mae gan sefydliadau addysgol osteopathig, fel unrhyw sefydliad addysgol arall, yr hawl i osod meini prawf mynediad a chynnal proses ddethol ar gyfer mynediad i'w rhaglenni. Mae hyn oherwydd nad yw o fudd i fyfyrwyr na'r sefydliad dderbyn myfyrwr nad oes ganddo siawns dda o gwblhau'r cwrs. Mae gan y sefydliad ddyletswydd gofal hefyd i'r holl fyfyrwyr y maent yn eu hymrestru: nid yw eisiau i unrhyw un sy'n dechrau'r rhaglen fethu â'i chwblhau.

---

<sup>18</sup> Mae canllaw defnyddiol ar gael yn: [www.disabilityrightsuk.org/telling-people-you%E2%80%99re-disabled-clear-and-easy-guide-students](http://www.disabilityrightsuk.org/telling-people-you%E2%80%99re-disabled-clear-and-easy-guide-students)

47. Rhaid i sefydliadau addysgol osteopathig ystyried diogelwch cleifion hefyd. Mae osteopathi yn fath o addysg alwedigaethol: mae myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy ymarfer clinigol. Rhaid i sefydliadau addysgol fod yn sicr bod gan fyfyrwyr y gallu i ddysgu osteopathi heb roi cleifion mewn perygl.
48. Mae bod yn agored ac yn ddibynadwy yn elfen bwysig o fewn yr [Osteopathic Practice Standards](#) (OPS). Mae Safon D10 yr OPS yn nodi bod rhaid i chi sicrhau nad oes unrhyw broblemau gyda'ch iechyd eich hun yn effeithio ar eich cleifion. Mae'n bwysig datblygu'r hunanymwybyddiaeth hon yn gynnar.
49. Dylai myfyrwyr ddeall y gall cyflyrau iechyd effeithio ar eu gallu i astudio. Pan fydd myfyrwyr yn cydnabod hyn, ac yn ceisio cymorth priodol, mae eu cyflwr iechyd yn llawer llai tebygol o effeithio ar eu cynnydd.

### **Sut fydd fy nghais yn cael ei ystyried?**

50. Bydd sefydliad addysgol osteopathig yn asesu pob cais mynediad yn erbyn yr un meini prawf mynediad. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob sefydliad addysg gymryd camau rhesymol a gwneud addasiadau i ddarparu ar gyfer myfyrwyr anabl, ond nid yw'n ofynnol iddynt amrywio unrhyw safon cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer mynediad i'w cwrs. Fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau nad yw meini prawf mynediad cwrs, a'r ffordd y cânt eu cymhwyso, yn gwahaniaethu (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn erbyn ymgeiswyr anabl. Rhaid i'r meini prawf mynediad fod yn ofynion gwirioneddol ac angenrheidiol ar gyfer y cwrs.
51. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau addysgol osteopathig yn cyfweld ymgeiswyr i asesu eu haddasrwydd ar gyfer mynediad i addysg a hyfforddiant osteopathi. Cyn cynnal cyfweiliadau, dylai'r sefydliad wirio gyda chi (a'r holl ymgeiswyr eraill) a oes gennych chi unrhyw ofynion penodol i'ch galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses gyfweld.
52. Bydd cyfweiliadau'n canolbwyntio'n bennaf ar a oes gennych chi'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen arnoch ar gyfer addysg a hyfforddiant osteopathig. Yn gyffredinol, ni fydd sefydliadau addysgol yn ystyried eich anabledd na'ch cyflwr iechyd ar y pwynt hwn, er nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd cwestiynau o'r fath. Gall darparwr y cwrs ofyn cwestiynau ynghylch addasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn i chi allu astudio neu fodloni safonau cymhwysedd y cwrs. Fodd bynnag, mae croeso i chi drafod eich anabledd neu'ch cyflwr iechyd yn y cyfweiliad a defnyddio'r cyfle i archwilio sut y gallai hyn effeithio ar eich profiad addysg a hyfforddiant. Gall hyn gynnwys sut rydych chi'n credu y gallai eich profiadau sy'n ymwneud ag anabledd neu iechyd gael eu hystyried yn briodol cadarnhaol yn eich astudiaethau ac fel gweithiwr proffesiynol.
53. Bydd sefydliadau addysgol osteopathig yn seilio eu hasesiad o'ch addasrwydd ar gyfer y cwrs ar y rhagdybiaeth eu bod yn gallu gwneud addasiadau rhesymol, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn sicrhau bod eich addasrwydd yn cael ei farnu yn ôl eich teilyngdod fel ymgeisydd, waeth pa anabledd neu gyflwr iechyd a allai fod gennych chi. Bydd asesiad manwl o ba addasiadau y bydd eu hangen, ac ystyriaeth a ellir eu rhoi ar waith yn rhesymol, yn digwydd dim ond ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ynghylch eich addasrwydd ar gyfer mynediad i'r cwrs.

## **Beth mae 'gwneud addasiadau rhesymol' yn ei olygu'?**

54. Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar sefydliadau addysgol i wneud addasiadau rhesymol – hynny yw, cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod myfyrwyr anabl yn gallu cymryd rhan lawn yn yr addysg a'r buddion, y cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill a ddarperir ar gyfer myfyrwyr eraill.
55. Mae hyn yn golygu bod rhaid i sefydliadau addysgol osteopathig gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw unrhyw beth y maent yn ei ddarparu neu'n ei wneud - gan gynnwys nodweddion ffisegol eu safle – yn rhoi myfyrwyr anabl dan anfantais sylweddol (h.y. sy'n fwy nag anfantais fach neu ddibwys). Mae hefyd yn ofynnol iddynt ddarparu cymhorthion neu wasanaethau ategol - megis offer penodol, meddalwedd gyfrifiadurol neu gymorth ychwanegol gan staff - y byddai myfyrwyr anabl yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol hebddynt.
56. Disgwylir i sefydliadau addysgol osteopathig gynllunio ymlaen llaw a rhagweld gofynion pobl â gwahanol fathau o anabledd (er enghraifft, pobl y mae nam ar eu golwg neu eu symudedd), yn ogystal ag ymateb i anghenion penodol ymgeiswyr a myfyrwyr anabl. Y gofyniad yw gwneud addasiadau sy'n rhesymol. Bydd gwahanol ffactorau yn pennu a yw addasiad yn rhesymol, gan gynnwys:
- a yw'r newid yn debygol o fod yn effeithiol
  - ei ymarferoldeb
  - y gost
  - adnoddau a maint y sefydliad
  - unrhyw darfu ar eraill, a allai gynnwys staff, myfyrwyr eraill neu gleifion
  - y cymorth ariannol sydd ar gael.
57. Ystyrir bod cyflyrau iechyd meddwl hirdymor yn anableddau o dan y Ddeddf. Felly, mae gan sefydliadau addysgol ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr sydd â chyflyrau iechyd meddwl hirdymor. Hyd yn oed mewn achosion lle nad yw iechyd meddwl myfyriwr yn cael ei gwmpasu gan y Ddeddf, er enghraifft, yn ystod cyfnod difrifol o drallod yn dilyn profedigaeth nad yw'n para mwy na blwyddyn, byddai gwneud addasiadau rhesymol yn dal i gael ei ystyried yn arfer gorau.

### **Rhai enghreifftiau o addasiadau cyffredinol a wnaed gan sefydliadau addysgol osteopathig:**

- darparu gwybodaeth am gyrsiau mewn fformatau amgen
- gwneud addasiadau i sicrhau bod llwybrau mynediad cyffredinol a brys i adeiladau ac oddi yno yn hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig
- sicrhau bod cyfleusterau craidd – megis toiledau, ystafelloedd cyffredin, llyfrgelloedd a chyfleusterau arlwy – wedi'u goleuo'n dda, gydag arwyddion priodol ac yn hawdd i fyfyrwyr anabl eu cyrraedd
- adolygu ac addasu polisiau ac arferion dysgu ac asesu er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr anabl
- sicrhau bod nodiadau darlithoedd ac adnoddau dysgu eraill ar gael mewn fformat electronig i'w defnyddio gan, er enghraifft, myfyrwyr â nam ar eu golwg a'r rhai ag anghenion dysgu sydd angen defnyddio meddalwedd gyfrifiadurol gynorthwyol
- darparu systemau dolen sain i gynorthwyo myfyrwyr â nam ar eu clyw
- caniatáu amser i fyfyrwyr i ffwrdd o'u hastudiaethau i fynychu apwyntiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, megis cwnsela, ffisiotherapi neu glinigau poen.
- hwyluso amser i ffwrdd o'r cwrs ar gyfer triniaeth ar gyfer cyflyrau iechyd mwy difrifol
- darparu amser ychwanegol mewn arholiadau ysgrifenedig
- sicrhau bod staff yn wybodus am eu cyfrifoldebau i ddileu gwahaniaethu ar sail anabled ac i ddarparu addasiadau a chymorth addas.

### **Enghraifft achos<sup>19</sup>**

*Mae gan ymgeisydd i sefydliad addysgol osteopathig sglerosis ymledol. Er ei bod hi'n dda ar y cyfan a'i symptomau'n gymharol ysgafn, mae'n dweud ei bod hi'n blino'n gyflym iawn, yn enwedig os yw hi'n gorfod canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae hi'n gofyn a all hi gael seibiannau gorffwys yn ystod y dydd, yn ôl yr angen, ar ben y seibiannau a drefnwyd, ar y sail y bydd hi'n dal i fyny ar y cynnwys yn ddiweddarach. Mae hi hefyd yn gofyn a oes modd ymestyn ei hasesiadau dros sawl diwrnod, lle bo hynny'n bosibl. Mae'r sefydliad addysgol yn ystyried ei phroblemau iechyd, ac yn cael sgwrs agored â'r ymgeisydd ynghylch natur gorfforol y cwrs a'r gofynion y bydd hyn yn eu rhoi arni. Maen nhw hefyd yn trafod natur ymarfer osteopathig, a sut mae hi'n teimlo y bydd yn ymdopi â phwysau'r clinig addysgu. Mae'r ymgeisydd yn dweud wrthyn nhw, os bydd hi'n cael gweithio ar ei chyflymder ei hun, ei bod yn teimlo y byddai'n gallu ymdopi â'r*

<sup>19</sup> Defnyddir enghreifftiau achos drwy gydol y ddogfen hon i ddangos sut y gellid rhoi'r canllawiau ar waith yn ymarferol. Mae'r rhain yn enghreifftiau ffuglennol, ac nid ydynt yn seiliedig ar achosion, unigolion na sefydliadau addysgol osteopathig gwirioneddol.

*cwrs. Ar y sail hon, mae'r sefydliad addysgol yn cynnig lle iddi. Bydd hi'n gallu cymryd seibiannau pan fydd hi'n teimlo'r angen, ac mae staff addysgu yn cael gwybod am hyn. Penodir tiwtor personol iddi, y gall gysylltu ag ef yn rheolaidd, ac mae'n gallu dal i fyny ar unrhyw addysgu mae hi wedi'i gollu drwy siarad â'r darlithwyr ar ôl pob sesiwn. Rhoddir amser ychwanegol iddi mewn asesiadau i ganiatáu seibiant byr pan fo angen, ac nid yw mwy nag un asesiad yn cael ei drefnu ar yr un diwrnod. Ar y sail hon, mae hi'n llwyddo i gamu ymlaen trwy Flwyddyn 1 y cwrs.*

### **A oes unrhyw anabledau a allai fy atal rhag hyfforddi fel osteopath?**

58. Mae osteopathi yn broffesiwn sy'n gofyn llawer, yn gorfforol, yn ddeallusol ac yn emosiynol. Efallai y bydd gan rai pobl anabledau neu gyflyrau iechyd sy'n eu hatal rhag caffael y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol neu ymarfer yn ddiogel mewn ffordd sy'n bodloni ein safonau, ond nid oes unrhyw anabledau na chyflyrau iechyd penodol sy'n atal rhywun yn awtomatig rhag hyfforddi i fod yn osteopath. Mae pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn unigol.
59. Wrth ystyried eich cais, bydd y sefydliad addysgol osteopathig yn ystyried ei brif nod: darparu rhaglen addysg sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu i fod yn osteopathiaid diogel ac effeithiol sy'n gallu gweithio'n annibynnol a bodloni gofynion yr [Osteopathic Practice Standards](#)<sup>20</sup>.
60. Dylech gydnabod y bydd achosion pan fydd sefydliad addysgol osteopathig yn dod i'r casgliad na fydd addasiadau rhesymol yn ddigonol i alluogi myfyriwr i fodloni'r [Osteopathic Practice Standards](#), disgwyliadau'r [Subject Benchmark Statement for Osteopathy](#)<sup>21</sup> neu'r canlyniadau sy'n ofynnol gan raddedigion wrth gael mynediad i'r proffesiwn, fel y nodir yn y [Guidance for Osteopathic Pre-Registration Education](#)<sup>22</sup>. Dangosir detholiadau o'r canlyniadau hyn, at ddibenion egluro, yn y blwch isod, gydag arwydd o'r hyn y bydd angen i sefydliad addysgol ei ystyried ym mhob achos.

#### **Canlyniadau graddedigion o Guidance for Osteopathic Pre-registration Education**

**(enghreifftiau dethol yn unig – mae'r canlyniadau llawn yn y canllawiau)**

- Perfformio archwiliad cywir a phriodol, gan gynnwys profion clinigol, arsylwi, teimlo â llaw a dadansoddi symudiad perthnasol i ennyn yr holl arwyddion corfforol, meddyliol ac emosiynol perthnasol.
- Cynnal gwerthusiad osteopathig sy'n ddigonol i fod yn sail i gynllun triniaeth a rheoli, gan gynnwys dadansoddiad o'r achos ac unrhyw ffactorau rhagdueddu neu gynnal, mewn partneriaeth â'r claf, cytuno a defnyddio'r cyfuniad mwyaf effeithiol o ofal wedi'i deilwra i ddisgwyliadau'r claf unigol.
- Gweithredu'r cynllun triniaeth yn fedrus ac yn briodol.

<sup>20</sup> Ar gael yn: [standards.osteopathy.org.uk](http://standards.osteopathy.org.uk)

<sup>21</sup> Ar gael yn: [www.qaa.ac.uk/en/Publications/Documents/SBS-Osteopathy-15.pdf](http://www.qaa.ac.uk/en/Publications/Documents/SBS-Osteopathy-15.pdf)

<sup>22</sup> Ar gael yn: [osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/training/guidance-for-osteopathic-pre-registration-education](http://osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/training/guidance-for-osteopathic-pre-registration-education)

***Bydd sefydliadau addysgol osteopathig yn ystyried galluoedd ymgeisydd i gynnal gwerthusiad ac asesiad effeithiol, ac i weithredu cynllun triniaeth gan ddefnyddio ystod briodol o dechnegau osteopathig.***

- Gweithio mewn partneriaeth â chleifion mewn modd agored a thryloyw, ennyn a pharchu eu safbwynt/barn ar eu triniaeth eu hunain a thrin cleifion fel unigolion.
- Cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol. Dylid dangos hyn, er enghraifft, drwy:
  - ddarparu lle i'r claf siarad a'r myfyriwr wrando
  - dangos sgiliau rhyngpersonol o safon uchel gyda chleifion a chydweithwyr
  - dangos sgiliau cyfathrebu ar bapur ac ar llafar i feithrin gofal cydweithredol
  - cyfathrebu gwybodaeth sensitif i gleifion, gofalwyr neu berthnasau yn effeithiol ac yn dosturiol, gan ddarparu cymorth lle bo hynny'n briodol
  - cydnabod sefyllfaoedd a allai arwain at gwynion neu anfodlonrwydd a rheoli sefyllfaoedd lle nad yw disgwyliadau cleifion yn cael eu bodloni
  - datgelu ac ymddiheuro am bethau sydd wedi mynd o'i le, gan gymryd camau, mewn partneriaeth â'r claf, i leihau'r effaith
  - annog a chynorthwyo cleifion i wneud penderfyniadau am eu gofal.

***Bydd sefydliadau addysgol osteopathig yn ystyried sgiliau cyfathrebu ymgeisydd***

- Cydnabod y gall blinder a phroblemau iechyd mewn gweithwyr gofal iechyd (gan gynnwys eu hunain) beryglu gofal cleifion a chymryd camau, gan gynnwys ceisio arweiniad gan eraill, lle bo hynny'n briodol, i leihau'r risg hon.

***Bydd sefydliadau addysgol osteopathig yn ystyried hunanymwybyddiaeth ymgeisydd ynghylch ei broblemau iechyd ei hun.***

***Sut alla i gael y cymorth sydd ei angen arna i?***

61. Bydd gan sefydliadau addysgol osteopathig wasanaeth cymorth i fyfyrwyr â chyflyrau iechyd neu anableddau, naill ai yn y sefydliad ei hun neu yn ei brifysgol gysylltiedig. Dylai'r gwasanaeth hwn allu rhoi unrhyw gyngor a chymorth i chi yn ystod eich cwrs. Bydd gwasanaethau'n amrywio, yn ogystal â'r safleoedd mae sefydliadau'n gweithredu ohonynt a'r cyfleusterau sydd ar gael. Efallai yr hoffech gysylltu â gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr ymlaen llaw pan fyddwch yn ystyried pa sefydliad i wneud cais iddo.
62. Efallai y bydd gennych yr hawl i gael cymorth ariannol drwy'r [Lwfans Myfyrrwyr Anabi](#)<sup>23</sup>, ond bydd angen i'ch cymhwysedd gael ei gadarnhau. Bydd eich sefydliad addysgol osteopathig yn gallu eich cynghori ar sut i wneud cais am hwn ac am gymorth ariannol posibl arall. Mae yna hefyd nifer o elusennau sy'n darparu cyngor a chymorth i fyfyrwyr sydd â gwahanol fathau o anabledd a chyflyrau iechyd. Rydym wedi rhestru rhai o'r rhain yn Adran 4, ond efallai y byddai'n werth i chi fwrw golwg hefyd ar sefydliadau eraill rydych chi eisoes yn ymwybodol ohonynt, neu fynd i [Gov.uk](#)<sup>24</sup>, i ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth ar gyfer eich anghenion penodol.

<sup>23</sup>Ar gael yn: [www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas/overview](http://www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas/overview)

<sup>24</sup> Mae amrywiaeth o adnoddau yn: [www.gov.uk/browse/education](http://www.gov.uk/browse/education)



## **Beth os ydwi i'n meddwl fy mod i wedi cael fy nhrin yn annheg yn ystod y broses ymgeisio?**

63. Os oes gennych chi bryderon bod eich anabledd neu eich cyflwr iechyd wedi effeithio'n andwyol ar sut mae'r sefydliad addysgol wedi asesu eich cais, a'ch bod wedi gwneud hunanasesiad gonest o'ch potensial i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y [Guidance for Pre-Registration Osteopathic Education](#)<sup>25</sup> a'r [Osteopathic Practice Standards](#)<sup>26</sup>, dylech gysylltu â'r darparwr addysg a gwneud cwyn drwy ei weithdrefn gwyno. Os nad ydych chi'n fodlon bod eich cwyn wedi'i thrin yn briodol, efallai yr hoffech chi gysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (mae rhagor o fanylion yn Adran 4).

---

<sup>25</sup> Ar gael yn: [osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/training/guidance-for-osteopathic-pre-registration-education](https://osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/training/guidance-for-osteopathic-pre-registration-education)

<sup>26</sup> Ar gael yn: [standards.osteopathy.org.uk](https://standards.osteopathy.org.uk)

### **Adran 3: Yn ystod y rhaglen astudio**

#### **Os caf i le, a fydda i'n cael fy nghefnogi yn ystod fy rhaglen radd osteopathi?**

64. Cyn gynted ag y cynigir lle i chi, bydd y sefydliad addysgol osteopathig eisiau gweithio gyda chi i gytuno ar yr addasiadau sydd eu hangen i'ch cefnogi chi. Bydd aelod o staff yn gofyn i chi am eich barn am yr addasiadau rydych chi'n meddwl sydd eu hangen arnoch chi. Bydd y sefydliad addysgol yn cydnabod mai chi sydd fwyaf tebygol o wybod beth sydd wedi helpu yn y gorffennol a gallu cynnig awgrymiadau am yr addasiadau angenrheidiol.
65. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i chi gael eich asesu gan arbenigwr (er enghraifft, ymgynghorydd iechyd galwedigaethol neu seicolegydd addysg) i ganfod pa fath o gymorth a lefel y cymorth fydd ei angen, neu i ddarparu cadarnhad ffurfiol o anghenion dysgu. Efallai y bydd hyn hefyd yn angenrheidiol os ydych chi'n gwneud cais am gymorth ariannol.
66. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd amgylchiadau pan fydd darparwr y cwrs, ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i'ch anabledd neu eich cyflwr iechyd a'ch anghenion penodol, yn dod i'r casgliad na fydd yr addasiadau sydd eu hangen arnoch i ymgymryd â'r cwrs yn rhesymol mewn gwirionedd. Bydd y sefydliad addysgol yn esbonio ei benderfyniad i chi ac yn archwilio cyrsiau a dewisiadau gyrfa amgen posibl gyda chi yr hoffech chi eu hystyried.

#### **Pa addasiadau y gellir eu gwneud i'm cefnogi i gwblhau'r rhaglen?**

67. Bydd sefydliadau addysgol osteopathig yn ymdrechu i roi'r holl addasiadau sydd eu hangen arnoch chi ar waith i sicrhau nad ydych chi dan anfantais sylweddol o ran dysgu, addysgu ac asesu'r cwrs, lle mae'r rhain yn rhesymol. Ni allant newid y safon cymhwysedd (hynny yw, y deilliannau dysgu y mae angen i chi eu cyflawni ar ddiwedd y cwrs), gan fod y rhain yn ymwneud â'r gofynion y mae'n rhaid i chi eu bodloni i gofrestru ac ymarfer fel osteopath.
68. Mae'n bwysig nad yw addasiadau i'ch cefnogi chi yn cael effaith andwyol sylweddol ar eraill. Er enghraifft, nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diystyru deddfwriaeth iechyd a diogelwch, felly ni ddylech chi nac unrhyw un arall yn y sefydliad addysgol fod yn agored i risgiau ychwanegol i'w hiechyd neu eu diogelwch o ganlyniad i addasiad.

**Mae myfyrwyr osteopathi sydd ag anableddau a chyflyrau iechyd wedi elwa ar ystod eang o addasiadau a wnaed gan ddarparwyr hyfforddiant, gan gynnwys:**

- addasiadau i'r *amgylchedd ffisegol*, yn fewnol ac yn allanol, i wella mynediad at gyfleusterau a'r defnydd ohonynt, ac i nodweddion megis goleuadau ac inswleiddio sain
- addasiadau i *addysgu a dysgu*, gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gweledol, sain ac electronig, ynghyd â'r technolegau cynorthwyol cysylltiedig
- *cymorth dynol*, ar ffurf hyfforddi a mentora, cymorth tiwtorial ychwanegol a chymorth penodol gyda thasgau penodol, megis prawffdarllen aseiniadau
- *caniatáu mesurau i helpu*, er enghraifft, drwy ymestyn terfynau amser, caniatáu absenoldebau, darparu seibiannau mewn sesiynau addysgu neu drwy lacio rheoliadau (er enghraifft, caniatáu i fyfyrwr gario meddyginiaeth angenrheidiol, ei storio ar y safle a'i chymryd)
- drwy ddarparu *offer neu feddalwedd*, er enghraifft, i gefnogi dysgu drwy gymorth cyfrifiadur, meddalwedd adnabod llais a rhaglenni darllen sgrin, ac ar ffurf gliniaduron a dyfeisiau llaw ar gyfer gwneud nodiadau
- drwy hwyluso mynediad at *adnoddau*, er enghraifft, ar gyfer prynu gwerslyfrau i'w defnyddio gartref i helpu i frwydro yn erbyn y blinder sy'n gysylltiedig â theithiau mynych i'r llyfrgell, ac ar gyfer defnyddio tacsis ar ôl triniaethau gofal iechyd penodol
- addasiadau i *arholiadau*, er enghraifft, wrth ddylunio a chyflwyno papurau arholiad, drwy ddarparu amser ychwanegol a chaniatáu seibiannau gorffwys, dileu cosbau am sillafu, gramadeg ac atalnodi gwael neu ganiatáu cyfrifiaduron â gwirwyr sillafu, trefnu ystafelloedd ar wahân a goruchwyliaeth, a chaniatáu defnyddio darllenydd neu ysgrifennydd
- addasiadau i *asesiadau ymarferol*, drwy ganiatáu sesiynau ymarfer ychwanegol, mwy o amser i'r myfyrwr ymgylfarwyddo â'r lleoliad neu i gyfsweld, asesu a chofnodi gwybodaeth am gleifion, neu ddefnyddio dyfais recordio ar gyfer trawsgrifio dilynol, drwy ganiatáu addasiadau i drefniant ffisegol a nodweddion yr ardal arholi a thrin – megis gofod ychwanegol neu oleuadau penodol – a chaniatáu defnyddio cymhorthion i hwyluso triniaethau
- darparu *cymorth ychwanegol*, er enghraifft, ar ffurf tiwtorialau un-i-un neu gyfarwyddyd clinig ychwanegol, neu drwy addysgu sgiliau astudio a thechnegau dysgu penodol, nodi 'cyfyll' myfyrwr, neu gynnig mentoriaeth barhaus neu gymorth cwrs hir gan diwtor personol, cwmselydd myfyrwr neu swyddog anabledd.

### Enghraifft achos

*Mae myfyriwr yn cael prawf arferol ar gyfer dyslecsia ym mlwyddyn 1, sy'n cael ei gynnig i bob myfyriwr. Mae hyn yn datgelu bod ganddo ddyslecsia, rhywbeth nad oedd yn ymwybodol ohono tan nawr ond sy'n cyfrif am rai o'r heriau y mae wedi'u hwynebu yn ystod ei addysg gynharach. Atgyfeirir y myfyriwr i'r tîm cymorth i fyfyrwyr, sy'n llunio cynllun cymorth dysgu. Cynigir amser ychwanegol i'r myfyriwr mewn asesiadau ac, oherwydd ei fod yn ei chael hi'n haws ysgrifennu gyda glieniadur, mae'n cael defnyddio cyfrifiadur mewn asesiadau ysgrifenedig.*

69. Mae rhai addasiadau (enghreifftiau yn y blwch cyfagos) wedi dod yn arfer safonol i ddarparwyr addysg a gellir eu rhoi ar waith yn gyflym, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd a ddeallir yn dda a lle gwyddys bod yr addasiadau'n darparu budd syml ac uniongyrchol. Efallai y bydd addasiadau eraill yn cymryd mwy o amser i'w rhoi ar waith gan fod angen eu cynllunio'n unigryw ar gyfer myfyriwr penodol.
70. Bydd yr addasiadau sydd eu hangen ar rai myfyrwyr yn amrywio dros amser gan fod eu hanabledd neu eu cyflwr iechyd yn newid. Os yw hyn yn digwydd i chi, dylech gysylltu â'r aelod staff perthnasol a thrafod y newidiadau â nhw.

### A fydd angen i mi newid y ffordd rwy'n rheoli fy iechyd neu anabledd?

71. Bydd angen i chi feddwl am sut rydych chi wedi rheoli eich anabledd neu eich cyflwr iechyd yn eich cartref a sut mae pethau'n debygol o newid fel myfyriwr osteopathig. Ystyriwch eich rhwydwaith cymorth presennol, megis y teulu a'r ffrindiau sydd wedi eich helpu i fyw gyda'ch anabledd, ac i ba raddau y byddant ar gael yn y dyfodol ac wrth law i ddarparu cymorth. Os ydych chi'n bwriadu symud i ardal newydd i ymgymryd â'ch astudiaethau, bydd angen i chi gydnabod y bydd yn cymryd amser i ddatblygu rhwydwaith cymorth newydd.
72. Mae rhai myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd wedi nodi, yn ychwanegol at yr heriau mae pob myfyriwr yn dod ar eu traws wrth ddechrau hyfforddiant osteopathig, eu bod wedi gorfod gwneud hyd yn oed mwy o ymdrech i ddarparu ar gyfer amserlenni academaidd a chymdeithasol sy'n achosi blinder, i sefydlu perthnasoedd newydd a rhwydweithiau cymorth cymheiriaid, ac i ddod o hyd i gydbwysedd priodol rhwng gofynion astudio, bywyd cymdeithasol newydd a'u hiechyd a'u lles parhaus.

### Sut mae materion iechyd ac anabledd yn ymwneud ag addasrwydd myfyriwr i ymarfer?

73. Mae 'addasrwydd i ymarfer' yn derm a ddefnyddir ym maes gofal iechyd sy'n ymwneud â rhywun sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau priodol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn unol â'r safonau rhagnodedig. Mae disgwyliaid ar fyfyrwyr yn hyn o beth hefyd, a dylech ymddwyn fel gweithiwr proffesiynol cyfrifol drwy gydol eich hyfforddiant. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein [Student Fitness to Practise guidance](#)<sup>27</sup>. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd eich addasrwydd i ymarfer yn cael ei gwestiynu, oherwydd anabledd neu gyflwr iechyd.

<sup>27</sup> Ar gael yn: [osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/student-fitness-to-practise](https://osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/student-fitness-to-practise)

74. Mae sefydliadau addysgol osteopathig yn debygol o bryderu os ydych chi'n dangos diffyg dealltwriaeth o natur neu effaith eich anabledd neu eich cyflwr iechyd, a'r effaith bosibl ar ofal cleifion a'ch gallu i fodloni'r safonau ymarfer osteopathig. Enghraifft fyddai myfyriwr yr oedd ei ddealltwriaeth yn cael ei effeithio dros dro gan ei fod wedi methu â chymryd meddyginiaeth gynnal fel y rhagnodwyd.

### **Enghraifft achos**

*Mae myfyriwr hŷn yn perfformio'n dda ym Blwyddyn 1 o raglen osteopathi ond, yn yr ail flwyddyn, mae'n mynd i'w gragen ac yn cyfathrebu llai, ac mae ei lefelau presenoldeb mewn darlithoedd yn dechrau lleihau. Mae'r sefyllfa'n cael ei hadrodd gan staff addysgu i'r swyddog lles myfyriwr, sy'n trefnu cyfarfod â'r myfyriwr. Mae'r myfyriwr yn dweud ei fod yn teimlo dan straen ac yn cael trafferth ymdopi â gwaith rhan-amser, bywyd teuluol a'i astudiaethau. O dan bolisi Addasrwydd i Astudio y sefydliad addysgol osteopathig, mae'r swyddog lles myfyriwr a thiwtor personol yn cyfarfod â'r myfyriwr i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd o gynllunio ei astudiaethau'n well, a'r gofynion lluosog sydd arno. Cytunir y byddant yn cyfarfod â'r myfyriwr yn rheolaidd i fonitro cynnydd. Ddeufis yn ddiweddarach, mae ymddygiad y myfyriwr wedi gwaethygu ac mae'n fwy afreolaidd. Caiff ei riportio am siarad mewn modd ymosodol gyda chlaf yn y clinig addysgu. Mae'r swyddog lles yn ei atgyfeirio i feddyg iechyd galwedigaethol am asesiad. Mae'r meddyg yn penderfynu bod gan y myfyriwr anhwylder deubegynol, ac mae'n cynghori bod angen ei roi ar feddyginiaeth briodol ar unwaith. Ar ôl gwelliant cychwynnol, mae ymddygiad y myfyriwr yn gwaethygu eto, ac mewn cyfarfod â'r swyddog lles, mae'n cyfaddef ei fod wedi rhoi'r gorau i gymryd ei feddyginiaeth. Nid yw'n dangos unrhyw ddealltwriaeth o'i gyflwr, nac o effaith ei ymddygiad ar ei gydweithwyr a'i gleifion. Caiff ei wahardd dros dro o'r cwrs, ac mae ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn cael ei gychwyn sy'n arwain at waharddiad pellach am gyfnod ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'n gallu cael rhywfaint o gyngor gan grŵp cymorth a hefyd geisio triniaeth gan feddyg ymgynghorol gwahanol. Mae hyn yn rhoi persbectif newydd iddo ar reoli ei gyflwr ac effaith peidio â gwneud hynny ar erail. O ganlyniad, caiff ei aildderbyn i'r cwrs yn y mis Medi canlynol, ac mae'n ail-ddechrau Blwyddyn 2.*

75. Os oes gan sefydliad addysgol osteopathig bryderon ynghylch sut rydych chi'n rheoli eich cyflwr, bydd yn codi'r pryder gyda chi ac yn trafod beth y gellir ei wneud i ddatrys y broblem. Os, er gwaethaf addasiadau a chymorth, nad ydych chi'n rheoli eich cyflwr yn effeithiol o hyd ac y gallech chi roi cleifion mewn perygl, gellir cwestiynu eich addasrwydd i ymarfer. Gall hyn arwain at ymchwiliad addasrwydd i ymarfer ffurfiol a gallai arwain at eich gwahardd o'r cwrs yn barhaol.
76. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig fod â phrosesau ar waith i ganfod materion ymddygiadol a allai godi amheuaeth ar allu myfyriwr i ymarfer yn ddiogel fel osteopath dan hyfforddiant. Gallai'r rhain gynnwys:
- Presenoldeb gwael mewn darlithoedd
  - Cyflwyno gwaith cwrs yn hwyr
  - Diffyg ymgysylltiad â'r cwrs
  - Ymddygiad ymosodol
  - Cyfathrebu gwael â staff a/neu gleifion.

77. Gyda'i gilydd, gellid ystyried bod y rhain yn bryderon addasrwydd i ymarfer, ond gallant hefyd fod yn ddangosyddion bod y myfyriwr yn ei chael hi'n anodd yn gyffredinol, neu fod ganddo anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar ei astudiaethau. Felly, gellir defnyddio prosesau monitro fel ffordd o nodi'r angen am gamau gweithredu a chymorth.
78. Mewn achosion eithriadol, gall iechyd neu anabledd myfyriwr ei gwneud yn amhosibl iddo gwblhau'r cwrs a bodloni disgwyliadau'r [\*Osteopathic Practice Standards\*](#). O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r sefydliad addysgol osteopathig fod yn agored gyda'r myfyriwr a cheisio dod i benderfyniad ar y cyd ynghylch y camau gorau i'w cymryd. Dylai'r sefydliad addysgol osteopathig gynnig cymorth i'r myfyriwr i ddod o hyd i gwrs astudio neu yrfa arall, lle bo hynny'n bosibl.

### **Beth yw 'addasrwydd i astudio'?**

79. Defnyddir polisiau a gweithdrefnau addasrwydd i astudio yn helaeth mewn sefydliadau addysg uwch. Maent yn cynorthwyo i asesu risgiau a chymryd camau o dan amgylchiadau lle mae iechyd, ymddygiad neu amgylchiadau eraill myfyriwr yn peri pryder. Efallai y bydd pryderon ynghylch gallu'r myfyriwr i gymryd rhan yn ei astudiaethau, neu fod risg iddyn nhw'u hunain neu i eraill.
80. Mae gweithdrefnau addasrwydd i astudio fel arfer yn cynnwys sawl cam, gydag ymyrraeth gynnar wedi'i chynllunio i nodi a deall y mater a chynnig cymorth priodol. Os bydd y materion sy'n arwain at y pryderon yn parhau, mae'r cam nesaf yn debygol o gynnwys proses fwy ragweithiol a ffurfiol i asesu sefyllfa'r myfyriwr, a phenderfynu ar y ffordd orau o reoli hyn.
81. Mewn sefydliadau addysgol osteopathig, mae'n debygol y bydd gorgyffwrdd rhwng gweithdrefnau addasrwydd i astudio ac addasrwydd i ymarfer: os bydd ymyrraeth gynnar o dan broses addasrwydd i astudio yn methu, mae'n debygol y bydd ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn cael ei gychwyn.

### **Enghraifft achos**

*Mae myfyriwr yn dioddef o iselder a gorbryder, ond mae'r cyflyrau hyn yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan gyda chyfuniad o feddyginiaeth gwrth-iselder a chwmsela. Mae hi hefyd yn gweld bod ymarfer corff rheolaidd yn helpu i leddfu ei symptomau. Ym mlwyddyn 2 y cwrs, mae hi'n dioddef profedigaeth deuluol sy'n dwysáu ei gorbryder a'i hiselder, ac mae'n ei chael hi'n anodd ymdopi â gofynion ei hastudiaethau. Mae ei meddyg teulu'n newid ei meddyginiaeth, ac mae'n ymddangos ar y dechrau bod hyn yn gwneud pethau'n waeth. Mae hi'n amharod i gymryd amser i ffwrdd o'i hastudiaethau, gan ei bod yn teimlo y bydd hyn hefyd yn gwneud pethau'n waeth. Mae ei sefydliad addysgol yn cytuno y gall barhau â'i hastudiaethau, ond y gall ddod i mewn yn hwyr bob bore os oes angen, a chymryd amser allan o ddarlithoedd os bydd hi'n teimlo bod ei gorbryder yn cynyddu. Mae'r sefydliad yn gwasgaru ei hamserlen asesu, er mwyn iddi allu sefyll rhai o'i harholiadau yn ddiweddarach yn yr haf. Mae'r addasiadau hyn yn ei chefnogi i reoli'r cyfnod heriol hwn, ac mae'n llwyddo i symud ymlaen i Flwyddyn 3.*

## ***Beth sy'n digwydd os bydd anabledd neu gyflwr iechyd yn datblygu neu'n cael ei ddiagnosis ar ôl i mi ddechrau'r cwrs?***

82. Mae'n bosibl efallai na fyddwch chi'n ymwybodol bod gennych chi broblem iechyd oherwydd eich bod wedi dod o hyd i ffyrdd o'i rheoli, neu eich bod yn tybio bod pawb yn cael yr un problemau. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod sefydlu, mae rhai sefydliadau addysgol osteopathig wedi nodi myfyrwyr sydd â dyslecsia – math penodol o anhawster dysgu – nad oedd wedi'i ddiagnosis o'r blaen, ac maent wedi gallu rhoi addasiadau ar waith sy'n cefnogi'r myfyrwyr hyn i reoli hyn drwy weddill y cwrs, er nad oedd y myfyrwyr wedi ceisio na disgwyl hyn pan wnaethant gais am fynediad i'r cwrs.
83. Mae rhai myfyrwyr yn mynd yn sâl yn ystod eu cwrs, yn cael damwain sy'n effeithio ar eu galluoedd neu'n canfod bod angen newid y feddyginiaeth y maent wedi bod yn ei defnyddio. Mae sefydliadau addysgol fel arfer yn cydymdeimlo â newidiadau o'r fath ac yn cydnabod y gall yr amgylchiadau hyn fod yn anodd i fyfyrwyr eu rheoli. Mae'n hanfodol eich bod yn agored ac yn onest ac yn esbonio'r anawsterau rydych chi'n eu profi. Gall addasiadau gael eu newid yn ystod cwrs neu eu rhoi ar waith yn ddiweddarach os bydd eich anghenion yn newid. Gorau po gyntaf y gallwch chi ddweud wrth eich sefydliad am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau, gan fod mwy o amser i weithio gyda chi i atal unrhyw broblemau rhag gwaethygu.
84. Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin, gydag amcangyfrifon y bydd tua 25% o'r boblogaeth yn cael eu heffeithio dros gyfnod o flwyddyn<sup>28</sup>. Iselder a gorbryder cyffredinol yw'r anhwylder meddyliol mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar bobl yn y DU, a gallant gael eu gwaethygu gan straen astudio, byw oddi cartref ac ymdopi â sefyllfaoedd a heriau newydd. Bydd gan sefydliadau addysgol brofiad o gefnogi myfyrwyr sydd ag ystod o broblemau iechyd meddwl ac, fel gydag unrhyw gyflwr iechyd arall, mae'n ddoeth rhoi gwybod i berson priodol yn y sefydliad a gofyn am gymorth cyn gynted â phosibl.
85. Bydd sefydliadau addysgol yn eich annog i gofrestru gyda meddyg teulu lleol. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn gallu derbyn cyngor a chymorth meddygol priodol a gwrthrychol yn eich ardal leol newydd. Pan fydd salwch yn digwydd yn ystod eich astudiaethau, fel arfer y cam mwyaf priodol fydd i'r sefydliad addysgol eich atgyfeirio i'ch meddyg teulu, a fydd yn gallu eich atgyfeirio i gael triniaeth fwy arbenigol, pe bai hyn yn angenrheidiol.

## **Os bydda i'n pasio fy rhaglen radd, a fydda i'n cael fy nghofrestru fel osteopath gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol?**

86. Os dyfernir Cymhwyster Cydnabyddedig i chi, mae'n golygu bod y sefydliad addysgol osteopathig wedi barnu eich bod yn gallu ymarfer yn annibynnol i'r safonau gofynnol a nodir yn yr [Osteopathic Practice Standards](#)<sup>29</sup>. Unwaith y byddwch chi ar Gofrestr Osteopathiaid y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, bydd gofyn i chi ymarfer yn unol â'n safonau cymhwysedd ac ymddygiad cyhoeddedig.

---

<sup>28</sup> Gweler gwefan y Sefydliad Iechyd Meddwl: [www.mentalhealth.org.uk/statistics/mental-health-statistics-most-common-mental-health-problems](http://www.mentalhealth.org.uk/statistics/mental-health-statistics-most-common-mental-health-problems)

<sup>29</sup> Ar gael yn: [standards.osteopathy.org.uk](http://standards.osteopathy.org.uk)

87. Fel arfer, bydd Cymhwyster Cydnabyddedig yn arwain at gofrestru, ar yr amod bod y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn fodlon eich bod:

- Mewn iechyd da - hynny yw, nad oes unrhyw beth yn ymwneud â'ch iechyd yn eich rhwystro rhag gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Wrth gofrestru am y tro cyntaf, mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i bob darpar unigolyn cofrestredig ddarparu geirda iechyd gan feddyg sydd â mynediad at eich cofnodion meddygol o'r pedair blynedd diwethaf. Os na allwch chi gael geirda iechyd gan feddyg, dylech ofyn am gyngor gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Yn achos cyflyrau iechyd meddwl, bydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ond yn poeni lle gall iechyd meddwl osteopath roi cleifion mewn perygl. Ni fydd y rhan fwyaf o gyflyrau iechyd meddwl yn risg i gleifion, ar yr amod bod yr osteopath yn deall ei gyflwr ei hun a'i fod yn cael ei reoli'n dda.
- O gymeriad da – hynny yw, eich bod yn onest ac yn ddibynadwy. Mae cymeriad da yn seiliedig ar ymddygiad ac agweddau person. Rydym yn ystyried unrhyw euogfarnau a rhybuddion nad ystyrir eu bod yn gydnaws â chofrestriad proffesiynol ac a allai ddwyn anfri ar y proffesiwn. Mae arnom angen geirda cymeriad gan berson proffesiynol (er enghraifft, cyfrifydd, athro, deintydd neu debyg) sydd wedi eich adnabod am bedair blynedd (ac nad yw'n berthynas).
- Addas i ymarfer – hynny yw, bod gennych chi'r sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd da a'r cymeriad da i wneud eich gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd eich cymhwyster i ymarfer fel myfyriwr yn cael ei asesu drwy gydol eich rhaglen cyn-gofrestru gan y sefydliad addysgol osteopathig. Rydym fel arfer yn ystyried ei fod wedi ei farnu'n foddhaol os dyfernir Cymhwyster Cydnabyddedig i chi.

### **Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gymhwyso?**

88. Mae cofrestru yn rhoi hawliau ymarfer anghyfyngedig. Os oes gennych chi anabledd neu gyflwr iechyd, nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon ar ein Cofrestr ac nid ydym yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar y ffordd rydych chi'n ymarfer osteopathi.
89. Pan fyddwch chi'n dod yn unigolyn cofrestredig gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, rydych chi'n ymrwmo i ymarfer yn unol â'r safonau a nodir yn yr [Osteopathic Practice Standards](#)<sup>30</sup>. Chi fydd yn bersonol gyfrifol am gynnal safonau ymarfer proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw unrhyw broblemau gyda'ch iechyd eich hun yn effeithio ar eich cleifion.
90. Os bydd eich cyflwr yn gwaethygu neu os byddwch chi'n datblygu cyflwr iechyd neu anabledd pan fyddwch chi ar y Gofrestr, eich cyfrifoldeb chi yw gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r ffordd rydych chi'n gweithio. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gweithio mewn practis grŵp lle gall cydweithwyr ddarparu cymorth neu gyfnewidiad, gan gyfyngu ar eich ymarfer i ddull mwy cyfyngedig, neu dalu am fathau penodol o gymorth (megis cymorth gweinyddol neu gymorth gydag iaith arwyddion) i'ch helpu i gynnal safonau uchel o ofal cleifion. Mae'r rhan fwyaf o osteopathiaid yn hunangyflogedig ond, os ydych chi'n gyflogedig, mae dyletswydd ar eich cyflogwr i wneud addasiadau rhesymol os yw'n ymwybodol o'ch anabledd.

---

<sup>30</sup> Ar gael yn: [standards.osteopathy.org.uk](http://standards.osteopathy.org.uk)



91. Mae penderfynu a ydych chi'n gymwys i ymarfer ac yn gallu parhau i sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd yn gyfrifoldeb proffesiynol craidd ac yn fater i chi ei benderfynu, yn union fel y mae ar gyfer pob unigolyn cofrestredig.
92. Unwaith y byddwch chi wedi cofrestru, bydd disgwyl i chi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), a chrynhof digon o dystiolaeth i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'n gofynion DPP. Mae [\*Continuing Professional Development Guidelines\*](#) ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

### **A fydda i'n gallu ennill bywoliaeth fel osteopath?**

93. Mae gennym gyfrifoldeb i ddiogelu'r cyhoedd. Nid yw'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn gallu dweud a fyddwch chi - neu unrhyw unigolyn cofrestredig arall - yn gallu ennill bywoliaeth fel osteopath. Mae llawer o osteopathiaid yn ymarfer sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd. Roedd gan rai y rhain pan oeddent yn fyfyrwyr, a datblygodd eraill nhw yn ddiweddarach yn eu gyrfaedd. Mae angen i bob unigolyn cofrestredig asesu drostynt eu hunain eu haddasrwydd i ymarfer a'u gallu i ennill bywoliaeth o osteopathi.

#### **Adran 4: Cael mwy o wybodaeth a chymorth**

Ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad pellach:

##### **Action on Hearing Loss**

(Action on Hearing Loss yw enw masnachu'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID))

19-23 Featherstone Street, Llundain, EC1Y 8SL

Rhif ffôn: 0808 808 0123

Ffôn testun: 0808 808 0123

[informationline@hearingloss.org.uk](mailto:informationline@hearingloss.org.uk)

<https://www.actiononhearingloss.org.uk/default.aspx>

##### **Cymdeithas Dyslecsia Prydain**

Unit 8 Bracknell Beeches, Old Bracknell Lane, Bracknell, RG12 7BW

Rhif ffôn: 0333 4054555

Llinell Gymorth Genedlaethol: 0333 4054567

[www.bdadyslexia.org.uk](http://www.bdadyslexia.org.uk)

##### **Disability Rights UK**

Mae canllaw defnyddiol i fyfyrwyr ynghylch datgelu eu hanabledd ar gael yn:

[www.disabilityrightsuk.org/telling-people-you%E2%80%99re-disabled-clear-and-easy-guide-students](http://www.disabilityrightsuk.org/telling-people-you%E2%80%99re-disabled-clear-and-easy-guide-students)

Hefyd, gwybodaeth gyffredinol am ddeall y Ddeddf Cydraddoldeb:

<http://www.disabilityrightsuk.org/understanding-equality-act-information-disabled-students>

##### **Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gylch gwaith statudol i hyrwyddo a monitro hawliau dynol ac i amddiffyn, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y nodweddion gwarchoddedig. Gellir cael mynediad ato yn:

[www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

##### **The Equality Advisory Support Service**

Mae'r Llinell Gymorth yn cynghori ac yn cynorthwyo unigolion ar faterion yn ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol, ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Llinell gymorth: 0808 8000082

[www.equalityadvisoryservice.com/app/home](http://www.equalityadvisoryservice.com/app/home)

##### **Cyngor Osteopathig Cyffredinol**

176 Tower Bridge Road, Llundain, SE1 3LU

Rhif ffôn: 020 7357 6655

E-bost: [info@osteopathy.org.uk](mailto:info@osteopathy.org.uk)

[www.osteopathy.org.uk](http://www.osteopathy.org.uk)

### **Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth**

Mae gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (sydd wedi'i lleoli yn y Swyddfa Gartref) gyfrifoldeb ar draws y llywodraeth am strategaeth a deddfwriaeth cydraddoldeb. Gellir cael mynediad ati yn:

[homeoffice.gov.uk/equalities](http://homeoffice.gov.uk/equalities)

### **Gov.uk**

I gael gwybodaeth am y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl:

[www.direct.gov.uk/en/DisabledPeople/EducationAndTraining/HigherEducation/DG\\_10034898](http://www.direct.gov.uk/en/DisabledPeople/EducationAndTraining/HigherEducation/DG_10034898)

### **Mind**

15-19 Broadway, Stratford, Llundain, E15 4BQ

Rhif ffôn: 020 8519 2122

E-bost: [contact@mind.org.uk](mailto:contact@mind.org.uk)

[www.mind.org.uk](http://www.mind.org.uk)

### **Mind Cymru**

Llawr 3, Tŷ Quebec, Castlebridge, 5-19 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd CF11 9AB

Rhif ffôn: 029 2039 5123

### **Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA)**

Mae'r OIA yn gorff annibynnol, a sefydlwyd i ymdrin â chwynion myfyrwyr. Yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr, mae'r OIA yn ymdrin â chwynion yn erbyn darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr.

Second Floor, Abbey Gate, 57-75 Kings Road, Reading, RG1 3AB

<http://oiahe.org.uk>

### **Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall**

105 Judd Street, Llundain WC1H 9NE

Llinell gymorth: 0303 123 9999.

[www.rnib.org.uk/Pages/Home.aspx](http://www.rnib.org.uk/Pages/Home.aspx)

### **Universities UK**

Yn cyhoeddi'r *The Student Wellbeing in Higher Education Good Practice Guide*, sydd ar gael

yn: [www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/StudentMentalHealthGuidance.aspx#.VhPncfVhHw](http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/StudentMentalHealthGuidance.aspx#.VhPncfVhHw)

### **Deddfwriaeth**

Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* ar gael yn:

[www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents)

Mae nodiadau esboniadol i *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* ar gael yn:

[www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/notes/contents](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/notes/contents)

Mae *Deddf Osteopathiaid 1993* ar gael yn:

[www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/21/contents](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/21/contents)